Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – Crynodeb statudol o adroddiadau lefelau staff nyrsio 2018-2021

Tabl cynnwys

Crynodeb gweithredol	**2**
Y cefndir deddfwriaethol	**3**
I ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal	**4**
Barn y bwrdd am effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion gan nyrsys	**12**
Camau gweithredu mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio	**15**
Cyd-destun amhariad Covid-19	**16**
Crynodeb i gloi	**17**
Atodiad 1 – Adroddiadau 3 blynedd llawn	**18**

Dec 2021
WG44225
Digital ISBN: 978-1-80391-517-3

Crynodeb Gweithredol

- Diben y papur hwn yw crynhoi'r adroddiadau tair blynedd cyntaf (rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2021) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan y byrddau iechyd ym mis Hydref 2021. Bydd yn cynnwys cyd-destun ac esboniad hanesyddol lle bo hynny'n briodol.
- Mae Adran 25E o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i fyrddau iechyd sydd â wardiau y mae adran 25B o'r Ddeddf yn berthnasol iddynt gyflwyno adroddiad ar gyfer pob cyfnod adrodd tair blynedd gan amlinellu'r canlynol: i ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal; barn y bwrdd am effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion gan nyrsys; unrhyw gamau gweithredu mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio.
- Mae'r canllawiau statudol yn diffinio "lefel y staff nyrsio" fel dau beth: y *lefel ofynnol o staff* (cyfanswm y nyrsys sydd ei angen ar ward er mwyn llunio rhestr ddyletswyddau arfaethedig ar gyfer pob shifft); a'r *rhestr ddyletswyddau arfaethedig*.
- Yn gyffredinol, yn ystod y cyfnod hwn mae'r byrddau iechyd wedi llwyddo i gynnal eu lefelau gofynnol o staff trwy ariannu eu cyfrifiadau yn briodol. Gwelwyd y prif eithriadau i hyn yn y flwyddyn gyntaf ond roeddent wedi'u goresgyn erbyn blwyddyn 2 a 3.
- Yn dilyn y cyfrifiadau trionglog cyntaf o dan Ddeddf 2016, cyfrifwyd bod angen 538.97 o staff nyrsio cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol mewn wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion yng Nghymru (**180.6** o nyrsys cofrestredig (RN) a **358.37** o weithwyr cymorth gofal iechyd (HCSW)).
- Fodd bynnag, roedd yna wahaniaeth rhwng yr hyn a gyfrifwyd a'r hyn a ariannwyd ar unwaith, a dim ond **194.6** o'r 358.37 o swyddi gweithwyr cymorth gofal iechyd cyfwerth ag amser cyflawn a gafodd eu hariannu o wanwyn 2018 (fel y dangosir yn nhabl 1).
- Mae cyfrifiadau wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod adrodd tair blynedd, yn bennaf oherwydd newidiadau i ffiniau byrddau iechyd a'r pandemig Covid-19 ym mlwyddyn 3. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd tair blynedd, roedd **139.74** o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol a **597** o weithwyr cymorth gofal iechyd cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol wedi'u hariannu fel rhan o staff meddygol a llawfeddygol i oedolion o'i gymharu â mis Mawrth 2018 cyn i ail ddyletswydd y Ddeddf ddod i rym;
- Pan ddaeth ail ddyletswydd Deddf 2016 i rym ar 6 Ebrill 2018, nid oedd gan fyrddau iechyd y seilwaith TGCh angenrheidiol i gipio'r holl ddata y byddent wedi hoffi adrodd arno o safbwynt cynnal *rhestrau dyletswyddau arfaethedig* fesul shifft. Felly, nid yw byrddau iechyd wedi gallu darparu data ar y graddau y mae rhestrau dyletswyddau arfaethedig wedi'u cynnal.
- Mae contract cenedlaethol ar gyfer pecyn safonedig o feddalwedd rhestrau dyletswyddau sy'n cynnwys modiwl rheoli wardiau - a fydd yn allweddol i oresgyn y materion hyn - wedi'i gaffael gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac mae'n cael ei gyflwyno ym mhob bwrdd iechyd ar hyn o bryd.
- Roedd cyfanswm o 40 o ddigwyddiadau/cwynion difrifol lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio wedi cyfrannu at y digwyddiad/cwyn:
    - 8 achos o niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty (lefelau 3, 4 a dyfnder anhysbys)
    - 25 o gwympiadau (lefelau 4 a 5)
    - 0 digwyddiad meddygol na ddylai ddigwydd byth (*medical never event)*
    - 7 cwyn am ofal a ddarparwyd gan nyrsys

Y Cefndir Deddfwriaethol

Cafodd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 gydsyniad brenhinol ym mis Mawrth 2016, ac fe'i cyflwynwyd fesul cam mewn dwy ran.

Mae'r ddyletswydd gyntaf o dan Adran 25A yn nodi'r '*cyfrifoldeb cyffredinol'* ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau bod *digon o nyrsys i ofalu am gleifion mewn ffordd sensitif* ac mae'n berthnasol i unrhyw leoliad lle mae gwasanaethau gofal nyrsio yn cael eu darparu a'u comisiynu. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Ebrill 2017.

Mae'r ail ddyletswydd o dan Adran 25B (a'i dyletswyddau cysylltiedig o dan adrannau 25C-E) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol Cymru ddefnyddio methodoleg drionglog ragnodedig i gyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio ar gyfer wardiau cleifion mewnol meddygol acíwt i oedolion a wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt i oedolion. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Ebrill 2018.

Mae adran 25E yn nodi bod dyletswydd adrodd o dan y Ddeddf ar unrhyw fwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y mae'r ddyletswydd 25B yn berthnasol iddynt. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu unrhyw fwrdd iechyd sydd â wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion yn ystod y cyfnod adrodd rhwng Ebrill 2018 ac Ebrill 2021. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r byrddau iechyd hyn gyflwyno adroddiad ar gyfer pob cyfnod adrodd tair blynedd sy'n amlinellu:

1. I ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal;
2. Barn y bwrdd am effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion gan nyrsys (trwy gyfeirio at gynnydd mewn cwynion, gwallau o ran meddyginiaeth, cwympiadau cleifion ac wlserau pwyso a gafwyd mewn ysbytai);
3. Unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio.

Mae adran 25E o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i fyrddau iechyd gyflwyno eu hadroddiadau tair blynedd i Lywodraeth Cymru o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y cyfnod adrodd (5 Mai 2021). Fodd bynnag, yn aml mae ymchwiliadau i achosion difrifol o niwed yn para rhai misoedd, sy'n golygu y byddai ymchwiliadau i ddigwyddiadau o chwarter olaf blwyddyn tri ar waith o hyd, ac y byddai'r data a gyflwynwyd ym mis Mai 2021 yn anghyflawn.

Felly, penderfynwyd y byddai byrddau iechyd yn cyflwyno adroddiadau amodol ac anghyflawn ym mis Mai 2021 er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, ond y byddent wedyn yn cyflwyno eu hadroddiadau terfynol, cyflawn erbyn mis Hydref 2021, gan roi digon o amser iddynt gwblhau pob ymchwiliad i ddigwyddiadau difrifol.

Bydd y papur canlynol yn crynhoi adroddiadau'r byrddau iechyd a gyflwynwyd ym mis Hydref 202 o dan y tri phennawd a nodir uchod, gan gynnig cyd-destun hanesyddol ac esboniad lle y bo'n briodol.

1. I ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal

Cyd-destun

Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi bod y canllawiau statudol yn diffinio “lefel y staff nyrsio” fel dau beth:

- y *lefel ofynnol o staff* (cyfanswm y nyrsys sydd ei angen ar ward er mwyn llunio rhestr ddyletswyddau arfaethedig ar gyfer pob shifft);
- y *rhestr ddyletswyddau arfaethedig.*

Felly, yn ôl adran 25E 2(a) o'r Ddeddf, byddai angen i fyrddau iechyd adrodd ar y graddau y mae'r *naill a'r llall* wedi'u cynnal. O safbwynt y lefel ofynnol o staff, mae hwn yn ymarferiad cymharol syml, sef cymharu'r lefelau gofynnol a gyfrifwyd yn erbyn y lefelau a ariannwyd (a ddangosir yn Nhabl 1 isod). Fodd bynnag, mae cynnal y rhestr ddyletswyddau arfaethedig yn fetrig llawer mwy cymhleth i'w ddiffinio a'i fynegi at ddibenion adrodd. Yn fras, byddai angen pwyntiau data cyflawn ar gyfer pob shifft yn y cyfnod adrodd i ddarparu disgrifiad cynhwysfawr o'r graddau y mae rhestrau dyletswyddau wedi'u cynnal. Byddai angen i ddata o'r fath gynnwys:

- Cyfanswm nifer y shifftiau;
- Nifer y shifftiau lle cynhaliwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig;
- Nifer y shifftiau lle na chynhaliwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig ond yr ystyriwyd bod y lefel staffio yn briodol ym marn broffesiynol yr uwch nyrs oherwydd ffactorau lliniarol, ac y cofnodwyd y farn broffesiynol honno;
- Nifer y shifftiau lle na chynhaliwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig ac yr ystyriwyd bod lefel y staff nyrsio yn amhriodol.

Er nad yw'n ofyniad penodol o dan adran 25E, at ddibenion cyflawnrwydd ac er mwyn helpu i lywio cyfrifiadau yn y dyfodol, gellir dadlau hefyd o blaid cynnwys nifer y shifftiau *lle y cynhaliwyd* y rhestr ddyletswyddau arfaethedig, ond bod barn broffesiynol yr uwch nyrs wedi nodi bod lefel y staff nyrsio yn parhau i fod yn *amhriodol* oherwydd amodau ar y ward (aciwtedd anarferol o uchel er enghraifft).

Nid yw'n gwbl amhosibl cipio'r data hwn. Byddai'n gymharol hawdd gwneud hyn pe bai'r feddalwedd briodol ar gyfer rhestr ddyletswyddau ar gael. Fodd bynnag, pan ddaeth ail ddyletswydd Deddf 2016 i rym ar 6 Ebrill 2018, nid oedd gan fyrddau iechyd y seilwaith TGCh angenrheidiol i wneud hynny. Nid oedd unrhyw feddalwedd rhestr ddyletswyddau safonedig ar gael yn genedlaethol, ac nid oedd unrhyw fwrdd iechyd yn cynnal system o gipio data bob dydd i gipio'r data uchod.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r diffyg seilwaith TGCh hwn yn ystod yr ymgynghoriad ar gam cyntaf y broses o graffu ar y bil gan gynrychiolwyr byrddau iechyd a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Fel y nodwyd ym mharagraff 217 o femorandwm esboniadol y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (Ionawr 2016):

Codwyd un pryder yn ymwneud â'r buddsoddiad TGCh ymhlyg yn y Bil. Hefyd, yn dilyn hynny, mynegodd swyddogion Llywodraeth Cymru y safbwynt, er bod y tri dangosydd eisoes yn cael eu casglu, bod ychwanegu'r wybodaeth am lefelau staffio wrth eu casglu yn gost ychwanegol y gellid ei hystyried. Soniwyd hefyd y gall fod angen datblygu'r systemau TGCh presennol ymhellach er mwyn i ddata gael eu 'gwthio' i mewn i systemau adrodd neu gasglu cyffredin. Gwnaed astudiaeth bellach i ganfod a oedd gan y Byrddau Iechyd y systemau egylchrestru cyfredol i weithredu'r Bil. Er nad yw systemau TGCh y Byrddau Iechyd yn union yr un fath, dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol bod gan bob Bwrdd Iechyd systemau electronig, neu eu bod yn bwriadu cael systemau o'r fath erbyn pryd y caiff y Bil ei weithredu, i reoli cylchrestru electronig, rheoli'r nyrsys cronfa, salwch, monitro achosion ac i fesur ar sail cynllunio'r gweithlu. Felly, ni fyddai angen newid y systemau TGCh ac o'r herwydd ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol o ran gweinyddu TGCh i weithredu'r Bil hwn. Hefyd, gan fod y cofnodion yn electronig, byddai cofnodion y lefelau staffio ar gael yn hawdd o'r dyddiad gweithredu'r Bil, felly ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol o ran storio data gweinyddol yn y dyfodol.

Nid yw'n glir pa "dystiolaeth" y gallai'r Coleg Nyrsio Brenhinol fod wedi'i darparu i ddangos na fyddai seilwaith TGCh yn rhwystr sylweddol i gofnodi ac adrodd ar y data sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Mae profiadau ymarferol dros y tair blynedd a hanner diwethaf o roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn awgrymu bod angen llawer mwy o graffu a rhagweledigad ar y pwynt hwn, a bod methu â gwneud hyn wedi ei gwneud yn amhosibl i fyrddau iechyd adrodd ar y graddau y mae'r rhestrau dyletswyddau arfaethedig wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf.

Nodwyd y mater hwn ar unwaith gan y Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan ar ôl pasio Deddf 2016, ac aethpwyd ati i ganfod ateb yn fuan wedi hynny. Un broblem arwyddocaol oedd y diffyg cysondeb o safbwynt meddalwedd rhestrau dyletswyddau electronig ar draws byrddau iechyd. Mae *"Allocate"*– un platfform amlwg – yn cynnig modiwl rheoli wardiau effeithiol o'r enw *Safecare.* Trwy addasu'r modiwl hwn, gellid cipio'r holl ddata adrodd sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2016 fel rhan o'i ddefnydd bob dydd ar wardiau. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, roedd bron i hanner y byrddau iechyd yn defnyddio meddalwedd rhestrau dyletswyddau gwahanol o'r enw *Roster-pro.* Gan fod cyfnodau contract y feddalwedd hon yn amrywio yn ôl bwrdd iechyd, roedd prynu ac addasu'r modiwl Safecare yn ateb hirdymor posibl, ond nid oedd yn ateb yn y fan a'r lle.

Yn y tymor byr, nododd y Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan fod y System Monitro Gofal Iechyd (HCMS) yn ateb dros dro posibl. Mae HCMS yn gronfa ddata sydd ar gael i fyrddau iechyd prifysgol trwy eu safleoedd mewnrwyd. Mae'n cynnwys rhestr o safonau/cwestiynau archwilio y mae clinigwyr yn cofnodi gwybodaeth yn eu herbyn, megis: yr archwiliad safonau iechyd a gofal blynyddol; cydymffurfiaeth fisol â hylendid dwylo; nifer yr achosion o niwed yn sgil briwiau pwyso; a chanlyniadau archwiliadau asesu maeth.

Fe'i datblygwyd yn wreiddiol i gynorthwyo wardiau i gofnodi canlyniadau archwiliadau yn erbyn safonau gofal, ac nid yw'n cynnwys unrhyw allu dadansoddi data, felly mae'r swyddogaeth yn gyfyngedig o'i gymharu â meddalwedd newydd, bwrpasol. Er mwyn defnyddio'r system, mae angen i aelod o staff fewngofnodi i'r system a

chofnodi data â llaw yn hytrach na bod yr adnodd yn cael ei ddefnyddio'n gyson wrth reoli'r ward.

Fodd bynnag, mae modd diwygio'r ffurflenni yn y system i gynnwys meysydd cwestiynau newydd. Am y rheswm hwn, gofynnwyd i weithgor cleifion mewnol oedolion Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan lunio rhestr o gwestiynau i'w cynnwys mewn ffurflen HCMS a fyddai'n hwyluso'r broses o gipio data er mwyn darparu rhywfaint o wybodaeth am y graddau yr oedd rhestrau dyletswyddau arfaethedig wedi'u cynnal.

Yn dilyn proses briodol o ystyried a thrafod, datblygwyd ffurflen asesu aciwtedd gan y gweithgor a oedd yn ychwanegu cwestiynau am nifer y staff ar y shifft o'i gymharu â'r nifer yn y rhestr ddyletswyddau arfaethedig, ynghyd â phriodoldeb nifer y staff ar y shifft. Ar ôl ystyried amser datblygu a phrofi Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, roedd yr amserlen arfaethedig yn rhagweld y byddai gwelliannau'r HCMS yn cael eu cyflwyno erbyn mis Ebrill 2020. O ganlyniad, byddai modd adrodd ar fesur meintiol o gynnal rhestr ddyletswyddau arfaethedig ar gyfer blwyddyn olaf y cyfnod adrodd tair blynedd cyntaf o leiaf.

Fodd bynnag, arweiniodd y pandemig Covid yn gynnar yn 2020 at oedi anorfod i ddatblygiadau TGCh gan fod angen i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru flaenoriaethu gwaith arall. Erbyn i'r system HCMS newydd ddod yn fyw ar y system ym mis Gorffennaf 2020, roedd y byrddau iechyd yn wynebu argyfwng staffio digynsail yn sgil y pandemig a'i brotocolau ynysu cysylltiedig. O ganlyniad, roedd yn gwbl anymarferol a) disgwyl iddynt hyfforddi staff i ddefnyddio'r ffurflenni newydd a b) sicrhau bod data'n cael ei gipio'n gyson â llaw.

O ganlyniad i'r ffactorau hyn – y gellid dadlau a oedd y tu allan i reolaeth y byrddau iechyd neu a oedd yn ddi-os y tu allan i'w rheolaeth – nid oes unrhyw ddata adrodd dibynadwy ar gael ar y graddau y mae rhestrau dyletswyddau arfaethedig wedi'u cynnal. Yn wir, chwe mis ers dechrau'r ail gyfnod adrodd tair blynedd, nid yw'r ateb dros dro a gafodd ei gynnig gan HCMS yn cael ei ddefnyddio'n ddigon cyson eto oherwydd effeithiau'r pandemig.

Fodd bynnag, mae ateb hirdymor ar y gorwel agos. Yn dilyn penderfyniad i roi terfyn ar unrhyw waith i ddiweddaru system rhestrau dyletswyddau electronig *Roster-Pro*, dechreuodd y byrddau iechyd a fu'n defnyddio'r system hon newid i ddefnyddio *Allocate.* Manteisiodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar y cyfle hwn i sefydlu contract rhestrau dyletswyddau electronig cyfunol ar gyfer Cymru gyfan gyda *Allocate* gan olygu y byddai pob bwrdd iechyd yn defnyddio'r un system o'r diwedd. Hefyd, roedd cyfle i gynnwys y modiwl rheoli wardiau *Safecare* fel rhan o'r contract, a gofyn i *Allocate* wneud yr addasiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y modiwl yn darparu'r holl swyddogaethau cipio ac adrodd ar ddata sy'n ofynnol gan Ddeddf 2016.

Y gobaith oedd y byddai hyn ar waith erbyn dechrau'r ail gyfnod adrodd tair blynedd ym mis Ebrill 2021, ond unwaith eto mae'r tarfu a achoswyd gan bandemig Covid wedi achosi oedi. Mae cyflwyno system rhestr ddyletswyddau electronig a modiwl rheoli wardiau newydd ledled y byrddau iechyd yn waith sylweddol, yn enwedig ar adeg pan fydd y system naill ai'n dal i ymdopi â'r pandemig neu'n canolbwyntio ar adfer ar ôl Covid. Mae gallu oddi mewn i dimau gwybodeg lleol sy'n arwain y gwaith o gyflwyno'r system yn amrywio rhwng byrddau iechyd hefyd.

Mae'r byrddau iechyd wedi cyrraedd cyfnodau gwahanol yn y broses weithredu, gan gynnwys y rhai a fu'n defnyddio Allocate a hyd yn oed Safecare ers blynyddoedd (fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), a'r rhai sy'n gorfod trosglwyddo yn gyfan gwbl o Roster-Pro i Allocate yn ogystal â chyflwyno'r modiwl Safecare (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro).

Adrodd

O ystyried y cefndir cyd-destunol hwn, mae'r tabl canlynol yn crynhoi ffigurau lefelau staff gofynnol ar gyfer nyrsys cofrestredig (RN) a gweithwyr cymorth gofal iechyd (HCSW) yn ystod pob un o'r cyfnodau cyfrifo chwe-misol. Trwy gymharu lefelau'r staff a gyfrifwyd a lefelau'r staff a ariannwyd, gwelwn enghraifft o'r graddau y mae lefel y staff nyrsio (y lefel ofynnol) wedi'i chynnal. Hefyd, mae'n nodi'r lefelau staff yn union cyn cwblhau'r cyfrifiadau trionglog cyntaf, sy'n rhoi cipolwg ar sut mae'r gweithlu yn y wardiau hyn wedi newid dros y 3 blynedd cyntaf. Er hwylustod, mae unrhyw ffigurau cadarnhaol wedi'u nodi mewn gwyrdd, ac mae unrhyw ffigurau negyddol wedi'u nodi mewn coch.

Tabl 1

Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018		**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**						**Gwahaniaeth cyfwerth ag amser cyflawn rhwng Mawrth 2018 a Tach 2020**	
RN	**HCSW**							**RN**	**HCSW**
552.88	392.37	**Cyfrifwyd**		**Ariannwyd**		**Gwahaniaeth**		**-33.76**	**112.34**
		RN	**HCSW**	**RN**	**HCSW**				
	Mai-18	557.94	436.38	557.94	436.38	0	0		
	Tach-18	595.62	422.88	595.62	422.88	0	0		
	Mai-19	572.56	440.73	572.56	440.73	0	0		
	Tach-19	481.99	474.88	481.99	474.88	0	0		
	Mai-20	513.43	503.29	513.43	503.29	0	0		
	Tach-20	519.12	504.71	519.12	504.71	0	0		

Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018		**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**						**Gwahaniaeth cyfwerth ag amser cyflawn rhwng Mawrth 2018 a Tach 2020**	
RN	**HCSW**							**RN**	**HCSW**
666	468.4	**Cyfrifwyd**		**Ariannwyd**		**Gwahaniaeth**		70.73	105.64
		RN	**HCSW**	**RN**	**HCSW**				
	Mai-18	703	468.4	836.05	569.03	133.05	100.63		
	Tach-18	733.17	468.04	846.3	557.42	113.13	89.38		
	Mai-19	799.12	530.65	795.61	527.94	-3.51	-2.71		
	Tach-19	806.59	535.26	792.44	530.77	-14.15	-4.49		
	Mai-20	708.04	515.35	798.52	566.71	90.48	51.36		
	Tach-20	736.73	574.04	799.54	566.71	62.81	-7.33		

Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018		Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro						Gwahaniaeth cyfwerth ag amser cyflawn rhwng Mawrth 2018 a Tach 2020	
RN	HCSW							RN	HCSW
1176	541	Cyfrifwyd RN	Cyfrifwyd HCSW	Ariannwyd RN	Ariannwyd HCSW	Gwahaniaeth		-69	19
Mai-18		1176	541	1176	541	0	0		
Tach-18		1176	541	1176	541	0	0		
Mai-19		1127	530	1127	530	0	0		
Tach-19		1127	530	1127	530	0	0		
Mai-20		1028	452	1028	452	0	0		
Tach-20		1107	560	1107	560	0	0		

Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018		Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg						Gwahaniaeth cyfwerth ag amser cyflawn rhwng Mawrth 2018 a Tach 2020	
RN	HCSW							RN	HCSW
348.33	255.12	Cyfrifwyd RN	Cyfrifwyd HCSW	Ariannwyd RN	Ariannwyd HCSW	Gwahaniaeth		282.42	195.39
Mai-18		395.25	292.35	348.2	255.12	-47.05	-37.23		
Tach-18		403.8	314.8	348.2	254.12	-55.6	-60.68		
Mai-19		615.79	441.28	615.79	441.28	0	0		
Tach-19		594.84	427.07	594.84	427.07	0	0		
Mai-20		469.7	346.6	469.7	346.6	0	0		
Tach-20		630.75	450.51	630.75	450.51	0	0		

Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018		Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda						Gwahaniaeth cyfwerth ag amser cyflawn rhwng Mawrth 2018 a Tach 2020	
RN	HCSW							RN	HCSW
604.01	436.76	Cyfrifwyd RN	Cyfrifwyd HCSW	Ariannwyd RN	Ariannwyd HCSW	Gwahaniaeth		-53.34	74.45
Mai-18		642.63	535.59	604.65	445.78	-37.98	-89.81		
Tach-18		607.04	527.95	587.6	473.61	-19.44	-54.34		
Mai-19		609.69	530.29	601.87	522.71	-7.82	-7.58		
Tach-19		591.46	525.51	594.03	526.1	2.57	0.59		
Mai-20		381.25	329.35	376.2	313.62	-5.05	-15.73		
Tach-20		550.67	511.21	552.02	482.19	1.35	-29.02		

Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018		Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe						Gwahaniaeth cyfwerth ag amser cyflawn rhwng Mawrth 2018 a Tach 2020	
RN	HCSW							RN	HCSW
806.78	408.67	Cyfrifwyd RN	Cyfrifwyd HCSW	Ariannwyd RN	Ariannwyd HCSW	Gwahaniaeth		-121.47	126.53
	Mai-18	859.78	586.97	817.01	449.61	-42.77	-137.36		
	Tach-18	895.45	615.89	842.52	562.36	-52.93	-53.53		
	Mai-19	660.36	453.1	660.36	453.1	0	0		
	Tach-19	671.69	507.58	671.69	507.58	0	0		
	Mai-20	672.14	508.36	672.14	508.36	0	0		
	Tach-20	685.31	535.2	685.31	535.2	0	0		

Casgliad

Mae'r data uchod yn dangos y canlynol:

- Ar y cyfan, mae'r byrddau iechyd wedi cynnal eu lefelau gofynnol o staff i raddau helaeth trwy ariannu eu cyfrifiadau'n briodol.
  - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn nodi eu bod wedi ariannu eu lefelau gofynnol o staff a gyfrifwyd gydol y cyfnod adrodd 3 blynedd.
  - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn nodi *gor*ariannu sylweddol ar gyfer ei lefelau gofynnol o staff a gyfrifwyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf a'r drydedd flwyddyn, a lefel isel o danariannu yn yr ail flwyddyn. Felly, dros y cyfnod tair blynedd, roedd y bwrdd iechyd wedi rhagori ar gynnal ei lefelau gofynnol o staff.
  - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dangos tanariannu sylweddol yn y flwyddyn gyntaf. Esbonnir hyn gan y ffaith fod y ddau fwrdd wedi datblygu cynlluniau ymwybodol ar y pryd i fabwysiadu dull graddol seiliedig ar risg o gynyddu cyllid, gan ystyried yr anallu i recriwtio nyrsys yn y flwyddyn gyntaf. Mae Hywel Dda yn dangos rhagor o fân danariannu yn y drydedd flwyddyn (sy'n cyd-fynd â Phandemig Covid-19) sy'n cael ei esbonio fel penderfyniad yn deillio o'r amrywiad cyson yn y lefelau staff nyrsio gofynnol ar wardiau; adleoli staff yn helaeth ar draws safleoedd; a recriwtio nifer sylweddol o staff dros dro a gyflogwyd yn benodol i gynorthwyo gyda'r ymateb i'r pandemig, a'u dyrannu i dimau ward.
  - Yn yr un modd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn dangos tanariannu sylweddol yn y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, yn wahanol i Fyrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda, nid dull gweithredu fesul cam wedi'i gynllunio a oedd yn gyfrifol am hyn, ond yn hytrach methiant ar lefel bwrdd gweithredol i ariannu lefelau'r staff a gyfrifwyd ac a gyflwynwyd iddynt. Unwaith y nodwyd hyn yn ganolog, ysgrifennodd y Prif Swyddog Nyrsio at Brif Swyddog Gweithredol y bwrdd iechyd yn tanlinellu difrifoldeb y sefyllfa ac yn nodi'r camau unioni angenrheidiol. Fel y nodwyd yng nghanllawiau gweithredol Deddf 2016, ystyriwyd y mater hwn o dan y Cyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd gan Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2019 fel un o sawl

rheswm dros gynyddu lefel uwchgyfeirio'r bwrdd iechyd i *fonitro uwch.* Fodd bynnag, yn dilyn y llythyr a grybwyllir uchod gan y Prif Swyddog Nyrsio, aeth y bwrdd iechyd ati ar unwaith i unioni'r methiant, fel y gwelir gan y data ariannu o'r ail a'r drydedd flwyddyn.

- Mae nifer y staff nyrsio yn y system feddygol a llawfeddygol i oedolion wedi cynyddu'n genedlaethol yn ystod y cyfnod adrodd tair blynedd gyntaf.
  - Mae'n werth nodi bod cymhariaeth gipolwg o sefydliadau yn union cyn y cyfnod adrodd ac ar ei ddiwedd yn fetrig gor-syml sy'n seiliedig ar y data a gyflwynwyd ar gyfer y ddau bwynt statig hynny mewn amser. Ni all ystyried natur ddeinamig newidiadau ward a buddsoddiadau staff ym mhob un o'r tair blynedd - yn enwedig pan ystyriwn darfu y pandemig Covid ar y drydedd flwyddyn. Gellir cael mwy o fanylion o adroddiadau blynyddol y byrddau iechyd sy'n gysylltiedig â'u hadroddiadau tair blynedd unigol llawn yn Atodiad 1.
  - Mae newidiadau yn y gweithlu nyrsys cofrestredig wedi amrywio rhwng y byrddau iechyd.
  - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn nodi gostyngiad 69 cyfwerth ag amser cyflawn yn y drefn honno.
  - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn nodi gostyngiad o 33 cyfwerth ag amser cyflawn. Mae eu hadroddiad yn amlinellu sut yn 2019, yn erbyn cefndir o swyddi gwag sylweddol, y cyflwynwyd model ward newydd yn seiliedig ar yr egwyddorion gofal iechyd darbodus gan bwysleisio arferion dirprwyo diogel a phriodol. Cyflwynodd y model Tîm Gofal Craidd newydd hwn rolau anghofrestredig newydd a gwahanol fel ymarferwyr cynorthwyol, crewyr rhestr ddyletswyddau a chynorthwywyr ward. Byddai hyn yn rhannol esbonio'r gostyngiad ymddangosiadol yn nyrsys cofrestredig dros y tair blynedd.
  - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi egluro yn ei adroddiad bod nifer y wardiau y mae 25B yn berthnasol iddynt wedi gostwng o 32 i 28 yn yr amser hwnnw, a fyddai'n esbonio'r gostyngiad ymddangosiadol yn nyrsys cofrestredig o 53 cyfwerth ag amser cyflawn.
  - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn nodi gostyngiad mwy sylweddol o 121 cyfwerth ag amser cyflawn, ond priodolir hyn i'r newid yn y ffin a throsglwyddo Ysbyty Tywysoges Cymru a'i 10 ward feddygol a llawfeddygol i oedolion i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mewn gwirionedd, o gofio bod adroddiad Abertawe wedi cyfrifo bod 223 o nyrsys cofrestredig yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym mis Tachwedd 2018, mae gostyngiad o 121 yn *gynnydd* gwirioneddol yn nyrsys cofrestredigo tua 101 cyfwerth ag amser cyflawn ledled wardiau eraill y bwrdd iechyd.
  - Ar y llaw arall, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn nodi'r cynnydd mwyaf sylweddol yn nifer y nyrsys cofrestredig a gyfrifwyd dros y cyfnod 3 blynedd, sef 282 o staff cyfwerth ag amser cyflawn. Priodolir hyn yn bennaf i drosglwyddiad 10 ward Ysbyty Tywysoges Cymru i'r bwrdd iechyd ym mis Ebrill 2019. Serch hynny, unwaith eto, mae'r ffaith bod y cynnydd yn llawer mwy na'r 223 o nyrsys cofrestredig a gyfrifwyd ym mis Tachwedd 2018 am y wards Tywysoges Cymru yn awgrymu bod lefelau staff wedi cynyddu'n fwy cyffredinol ar draws y bwrdd iechyd gan tua 59 cyfwerth ag amser cyflawn er gwaethaf y newid yn y ffin.
  - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn nodi cynnydd o 70 o staff cyfwerth ag amser cyflawn.
  - Mae nifer y gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi cynyddu'n fwy cyson ym mhob un o'r byrddau iechyd dros y cyfnod adrodd. Cymhareb nyrsys

cofrestredig:gweithwyr cymorth gofal iechyd ym mis Mawrth 2018 oedd 62:38. Ar gyfrifiad terfynol y cyfnod adrodd hwn, roedd y gymhareb honno wedi gostwng i 58:42. Mae hyn yn debygol yn rhannol oherwydd rheolaeth staff nyrsio yn ystod pandemig Covid.

- Mae'r cyfansymiau cenedlaethol yn cyfateb i **139.74** o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol (+3.3%) a **597** o weithwyr cymorth gofal iechyd cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol (+23.8%) a ariannwyd fel rhan o'r staff meddygol a llawfeddygol i oedolion ym mis Tachwedd 2020 o'i gymharu â mis Mawrth 2018 cyn i ail ddyletswydd y Ddeddf ddod i rym.

Oherwydd diffyg systemau TGCh angenrheidiol i gofnodi data staff nyrsio yn ddigonol, a'r aflonyddwch difrifol a achoswyd gan bandemig Covid-19, cyfyngwyd ar adroddiadau byrddau iechyd o safbwynt *i ba raddau y mae lefelau'r staff nyrsio wedi'u cynnal.*

O safbwynt *y rhestr ddyletswyddau arfaethedig,* nid oes unrhyw ddata cynhwysfawr ar gael, ond mae'r ateb TGCh i'r mater hwn wrthi'n cael ei roi ar waith, a dylai gael ei gyflwyno i bob ward sy'n dod o dan adran 25B o'r Ddeddf yn ystod y cyfnod adrodd tair blynedd presennol (2021-2024).

2. Barn y bwrdd am effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion gan nyrsys

Cyd-destun

Ar ddechrau 2018, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan, Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio'r byrddau iechyd a swyddogion y Prif Swyddog Nyrsio/Llywodraeth Cymru i gytuno ar ddehongliad cyson o'r hyn a fyddai'n cael ei adrodd yn erbyn adran 25E 2(b) o Ddeddf 2016.

> *(b)*
> *the impact the Board or Trust considers that not maintaining nurse staffing levels has had on care provided to patients by nurses, for example by reference to complaints about care provided to patients by nurses made in accordance with the Complaints Regulations or by reference to an increase in incidents of harm caused by—*
>
> *(i) errors in administering medication to patients;*
> *(ii) patients falling;*
> *(iii) patients developing hospital-acquired pressure ulcers;*

Cafwyd cytundeb unfrydol o'r dechrau na ddylai'r gofynion adrodd fod yn llafurus i'r graddau eu bod yn gweithredu'n groes i fwriad y ddeddf trwy leihau yn ormodol gallu nyrsys i ofalu am gleifion. Yn wir, mynegwyd pryderon am ganlyniad anfwriadol posibl o'r fath wrth graffu'n gynnar ar y Bil.

Oherwydd diffyg system TGCh genedlaethol safonedig ar gyfer cipio data ar niwed (hyd at gyflwyno'r System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru newydd ym mis Ebrill 2021, roedd byrddau iechyd yn defnyddio ffurflenni DATIX lleol gwahanol) neu unrhyw adnodd cipio/dadansoddi data awtomataidd, penderfynwyd canolbwyntio ar *achosion difrifol* o niwed - yn erbyn y pedwar categori a nodwyd yn benodol - ar adegau lle ystyriwyd bod y methiant i gynnal lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol. Byddai angen dilysu ac ail-wirio ymchwiliadau i bob digwyddiad o niwed i'w cynnwys mewn adroddiad, felly byddai canolbwyntio ar *ddigwyddiadau difrifol* yn unig (niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty gradd 3, 4 a dyfnder anhysbys; cwympiadau lefelau 4 a 5 digwyddiadau meddygol na ddylent ddigwydd byth; a chwynion am ofal nyrsio yn arwain at niwed i gleifion) yn lleihau'n sylweddol yr oriau nyrsio sy'n cael eu treulio yn dilysu data adrodd, a hefyd yn blaenoriaethu'r achosion mwyaf arwyddocaol o niwed i gleifion.

Adrodd

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r data priodol sydd wedi'i gyflwyno yn adroddiadau tair blynedd pob bwrdd iechyd sy'n nodi effaith peidio â chynnal lefel y staff nyrsio ar ofal cleifion ar ffurf niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty lefelau 3, 4 a dyfnder anhysbys (P.D); cwympiadau lefelau 4 a 5 (cwympiadau); digwyddiadau meddygol na ddylent ddigwydd byth (MNE); a chwynion am ofal nyrsio yn arwain at niwed i gleifion.

Tabl 2

		Nifer y digwyddiadau difrifol				Nifer y digwyddiadau difrifol lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol			
		2018/19	**2019/20**	**2020/21**	**Cyf**	**2018/19**	**2019/20**	**2020/21**	**Cyf**
AB	P.D	20	14	36	70	0	1	0	1
	Cwympiadau	34	36	37	107	0	0	0	0
	MNE	1	0	2	3	0	0	0	0
	Cwynion	x	103	128	231	x	0	4	4
BC	P.D	84	54	98	236	2	0	0	2
	Cwympiadau	55	41	73	169	5	0	0	5
	MNE	4	0	14	18	0	0	0	0
	Cwynion	x	5	10	15	x	0	0	0
CaF*	P.D				129				2
	Cwympiadau				63				4
	MNE				1				0
	Cwynion	x			0	x			0
CTM	P.D	27	67	22	116	0	2	0	2
	Cwympiadau	24	5	1	30	0	2	0	2
	MNE	0	1	0	1	0	0	0	0
	Cwynion	x	8	3	11	x	0	0	0
HD	P.D	13	25	15	53	0	0	1	1
	Cwympiadau	21	16	15	52	0	1	0	1
	MNE	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cwynion	x	34	37	71	x	0	0	0
BA	P.D	12	10	5	27	0	0	0	0
	Cwympiadau	26	26	7	59	11	2	0	13
	MNE	0	0	1	1	0	0	0	0
	Cwynion	x	36	16	52	x	1	2	3
					1515				40

* Ni ddarperir data ar gyfer blynyddoedd unigol.

Casgliad

Realiti ystadegol y math hwn o adrodd yw na fyddai un cyfnod o ddarparu hyd yn oed yr wybodaeth fwyaf manwl yn ddigon i wneud unrhyw gysylltiadau achosol rhwng cyflwyno Deddf 2016 ac unrhyw newidiadau i achosion o niwed. Arsylwir ar batrymau a thueddiadau dros gyfnodau hwy na 3 blynedd.

Fodd bynnag, mae natur gryno'r data ar niwed a nodwyd yn yr adroddiadau cyntaf hyn yn ei gwneud yn anodd iawn dod o hyd i lawer o wybodaeth bwysig. Mewn gwirionedd, yr unig wybodaeth glir a fynegwyd yw'r ffaith mai dim ond mewn 40 o'r

1515 o ddigwyddiadau difrifol perthnasol a nodwyd ar draws yr holl fyrddau iechyd yn ystod y cyfnod tair blynedd yr ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol.

Nid yw'r dehongliad lleiaf posibl hwn o adran 25E 2(b) yn cynnwys data cyd-destunol pwysig penodol a fyddai'n helpu'r broses a gynhaliwyd gan gynnwys:

- Nifer y digwyddiadau difrifol a gafwyd ar shifftiau lle nad oedd lefel y staff nyrsio wedi'i chynnal; ac o bosibl, er nad yw wedi'i nodi'n benodol yn y Ddeddf fel gofyniad,
- Nifer y digwyddiadau a gafwyd ar shifftiau lle'r oedd lefel y staff nyrsio *wedi* ei chynnal, ond yr ystyriwyd bod lefelau'r staff nyrsio yn ffactor perthnasol yr un fath.

Ar hyn o bryd, mae Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan a Chyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio yn ystyried y diwygiadau hyn i'r templed adrodd i'w ddefnyddio ar gyfer yr ail gyfnod adrodd (2021-2024).

Yn ogystal â chynnwys yr wybodaeth ychwanegol a nodir uchod, mae'r Prif Swyddog Nyrsio o'r farn bod angen gwneud mwy o waith i gysoni allbwn yr adroddiadau tair blynedd hyn â'r math o fetrigau ansawdd a fydd yn sylfaen i'r adroddiadau yn erbyn Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu 2020 a basiwyd yn ddiweddar. Rhoddir sylw dyledus i hyn – a datblygir y gwaith law yn llaw os oes modd - wrth i'r rheoliadau a'r canllawiau statudol ar gyfer y ddeddfwriaeth honno gael eu datblygu dros y misoedd nesaf.

3. Camau gweithredu mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio

Cyd-destun

Fel y nodwyd uchod, mae "lefel y staff nyrsio" yn cael ei diffinio fel y lefel ofynnol o staff *a'r* rhestr ddyletswyddau arfaethedig. Cyfeiriwyd eisoes at y camau a gymerwyd pan na chynhaliwyd y lefel ofynnol o staff o dan yr adran 'i ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal' (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn cymryd camau ar unwaith i unioni ei ddiffyg cyllid ar gyfer lefelau staff a gyfrifwyd, a dulliau gweithredu fesul cam Hywel Dda a Bae Abertawe).

Mae'r un problemau TGCh a ddisgrifir yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn cael effaith yma hefyd. Ar hyn o bryd, nid oes modd adrodd ar y camau a gymerwyd ym *mhob* achos unigol o fethu â chynnal y rhestr ddyletswyddau arfaethedig oherwydd yr un diffyg system safonedig ar gyfer cipio data. Mae'n bosibl y bydd modd gwella'r agwedd hon wrth gyflwyno'r modiwl Safecare fel rhan o feddalwedd rhestr ddyletswyddau arfaethedig Allocate ar lefel genedlaethol.

Yn eu hadroddiadau 3 blynedd cyntaf, mae'r byrddau iechyd wedi canolbwyntio ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i achosion o niwed lle yr ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol (y rhai a amlinellir yn yr adran uchod).

Adrodd

Gan nad oes modd adrodd ar unrhyw ddata meintiol yn erbyn yr agwedd hon, yr unig beth y gallwn ei asesu yw adroddiadau ysgrifenedig byrddau iechyd o'u camau gweithredu mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio. Mae lefel y manylder yn amrywio ychydig rhwng y byrddau iechyd, ond yn gyffredinol maent yn dilyn yr un thema:

- Sicrwydd cyffredinol ynglŷn â'r *camau rhesymol* (fel y'u nodir yn y canllawiau statudol) a gymerwyd i gynnal lefelau staff nyrsio;
- Dadansoddiad o wraidd y broblem ar gyfer achosion unigol o niwed a gafwyd;
- Adborth manwl i brif nyrsys wardiau yn dilyn y dadansoddiad o wraidd y broblem;
- Dysgu sefydliadol yn ymwneud â chwympiadau a niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty;
- Hyfforddiant ar atal cwympiadau;
- Hyfforddiant atal niwed yn sgil briwiau pwyso;
- Adolygiadau o benderfyniadau adleoli staff;
- Addasu gweithdrefnau asesu risg ar draws safleoedd ar gyfer lefelau staff nyrsio;
- Newid llwybrau cleifion;
- Sefydlu timau cymorth yn y cartref fel bod modd rhyddhau cleifion yn gynt.

Mae unrhyw gwynion sy'n cael eu gwneud am ofal cleifion eisoes yn dod o dan *Gweithio i Wella,* ac mae pob bwrdd iechyd yn gyfarwydd iawn â'r weithdrefn hon. Mae'n nodi'r camau y mae'n rhaid i fyrddau iechyd eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon, ynghyd â'r amserlenni perthnasol.

Cyd-destun amhariad Covid-19

Wrth i bandemig Covid-19 ymledu gan arwain at gyfyngiadau ar gymdeithas, ysgrifennodd y Prif Swyddog Nyrsio at gyfarwyddwyr gweithredol nyrsio ar 24 Mawrth 2020 i egluro sut roedd hi'n disgwyl i'r pandemig amharu ar brosesau busnes fel arfer o dan Ddeddf 2016.

Nododd y llythyr na fyddai unrhyw un o'r dyletswyddau o dan y Ddeddf yn cael ei gohirio, ond eglurodd y byddai wardiau sy'n dod o dan adran 25B o'r Ddeddf yn debygol o newid. Ar y pryd, roedd ail ddyletswydd y Ddeddf yn berthnasol i wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion yn unig. Pe bai ward o'r fath yn cael ei haddasu i ofalu'n bennaf am gleifion a oedd yn ddifrifol wael â Covid-19, byddai'n peidio â bod yn ward feddygol neu lawfeddygol i oedolion, ac felly ni fyddai adran 25B o'r Ddeddf yn berthnasol iddi.

Rhoddwyd yr arweiniad hwn ar sail modelu'r senario gwaethaf a oedd yn rhesymol bosibl ar y pryd, a oedd yn awgrymu y gallai ysbytai gael eu meddiannu'n bennaf gan gleifion Covid-19 difrifol wael. Diolch i'r drefn, ni wireddwyd yr amcanestyniadau difrifol hynny erioed yn llawn, ac erbyn mis Hydref 2020, roedd yn amlwg bod y sefyllfa o ran sut yr oedd safleoedd ysbytai yn ymdrin â chleifion Covid-19 yn fwy amrywiol a chymhleth.

Cyflwynwyd protocolau cwarantin gwahanol ledled GIG Cymru ac addaswyd ardaloedd gwelyau cleifion mewnol at ddibenion gwahanol. Roedd y trefniadau'n cynnwys: wardiau heb unrhyw gleifion Covid; wardiau â chleifion Covid a oedd yn asymptomatig ac yn cael eu trin am gyflyrau meddygol neu lawfeddygol eraill; cleifion Covid a oedd â symptomau ond nad oeddent yn ddifrifol wael o ganlyniad i'r clefyd, a'u bod yn cael eu trin am gyflyrau meddygol neu lawfeddygol eraill; a wardiau lle'r oedd pob claf yn ddifrifol wael gyda Covid ac angen gofal dwys arnynt am y rheswm hwn.

Ar 15 Hydref 2020, ysgrifennodd y Prif Swyddog Nyrsio lythyr diweddaru at gyfarwyddwyr gweithredol nyrsio yn cyfeirio at ganllawiau statudol y Ddeddf sy'n tanlinellu mai "prif ddiben y ward" sy'n pennu ei dynodiad fel ward feddygol neu lawfeddygol acíwt i oedolion yn y pen draw. Felly, eglurodd y llythyr hwn y byddai adran 25B o'r Ddeddf yn parhau i fod yn berthnasol i ward os mai prif ddiben y ward oedd trin cleifion ar gyfer cyflyrau meddygol neu lawfeddygol (waeth a oeddent wedi cael prawf positif am Covid ai peidio) a bod offeryn Lefelau Gofal Cymru yn dal yn berthnasol o hyd i'r lleoliad hwnnw.
Ar y llaw arall, pe bai ward yn cael ei haddasu mewn ffordd ddilys i drin cleifion Covid-19 a oedd yn ddifrifol wael – ac roeddem yn disgwyl y byddai hynny'n digwydd yn amlach ym mis Mawrth – roedd y Prif Swyddog Nyrsio yn parhau i gredu y byddai'r wardiau hynny'n cael eu hystyried yn eithriadau o dan adran 25B.

Roedd profiad byw'r byrddau iechyd - yn enwedig yn ystod chwe mis cyntaf y pandemig - yn gymhleth iawn ac yn newid yn gyflym. Cafodd wardiau eu haddasu at ddibenion gwahanol, eu cau a'u hagor yn gyson ac ar frys mawr. O ganlyniad, roedd y broses gyfrifo trionglog safonedig a gyflwynwyd gan Ddeddf 2016 yn afresymol o dan yr amgylchiadau. Mae'r byrddau iechyd yn nodi iddynt gael eu harwain gan farn broffesiynol yn bennaf yn ystod y cyfnod hwn er mwyn cyfrifo eu lefelau staff nyrsio.

Crynodeb i gloi

O ystyried y cyfyngiadau ar gipio a dadansoddi data yn sgil diffyg systemau TGCh y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad cryno hwn, roedd y broses adrodd yn y cyfnod tair blynedd cyntaf hwn wastad yn mynd i fod yn heriol i'r byrddau iechyd. Hefyd, gwelwyd tarfu digynsail ar y broses yn sgil pandemig Covid-19 yn y drydedd flwyddyn – a oedd yn gwbl anrhagweladwy pan basiwyd Deddf 2016.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r byrddau iechyd wedi gorfod bodloni ar adrodd ar rai agweddau yn unig. Hefyd, maent wedi nodi'n fanwl yr atebion a fydd yn hwyluso adroddiadau manylach yn ystod cyfnodau tair blynedd yn y dyfodol, gan ddechrau eu rhoi ar waith.

Y prif ffeithiau yw:

- Yn dilyn y cyfrifiad trionglog cyntaf o dan Ddeddf 2016 yn ystod Gwanwyn 2018, cyfrifwyd bod angen 538.97 o staff nyrsio ychwanegol cyfwerth ag amser cyflawn mewn wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion yng Nghymru (180.6 o nyrsys cofrestredig a 358.37 o weithwyr cymorth gofal iechyd);
- Fodd bynnag, roedd yna wahaniaeth rhwng yr hyn a gyfrifwyd a'r hyn a ariannwyd, a dim ond 194.6 o'r 358.37 o swyddi gweithwyr cymorth gofal iechyd cyfwerth ag amser cyflawn a oedd wedi'u hariannu o wanwyn 2018 (fel y dangosir yn nhabl 1);
- Mae cyfrifiadau wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod adrodd tair blynedd, yn bennaf oherwydd newidiadau i ffiniau byrddau iechyd a'r pandemig Covid-19 ym mlwyddyn 3;
- Ar ddiwedd y cyfnod adrodd tair blynedd, roedd **139.74** o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol a **597** o weithwyr cymorth gofal iechyd cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol wedi'u hariannu fel rhan o'r staff meddygol a llawfeddygol i oedolion o'i gymharu â mis Mawrth 2018 cyn i ail ddyletswydd y Ddeddf ddod i rym;
- Mae hynny'n cyfateb i tua **£21.94m** o gyllid ychwanegol ar gyfer staff nyrsio band 3 a band 5 (yn seiliedig ar gyflogau canol cyfnod yr Agenda ar gyfer Newid ar gyfer 2021/22 ac argostau 30%);
- Cafwyd cyfanswm o 40 o ddigwyddiadau/cwynion difrifol lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol;
    - 8 achos o niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty (lefelau 3, 4 a dyfnder anhysbys)
    - 25 o gwympiadau (lefelau 4 a 5)
    - 0 digwyddiad meddygol na ddylai ddigwydd byth
    - 7 cwyn am ofal a ddarparwyd gan nyrsys

Am ragor o wybodaeth am ffurflenni'r byrddau iechyd unigol, gweler eu hadroddiadau 3 blynedd llawn sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

Atodiad 1 – Adroddiadau 3 blynedd llawn

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-papers-22nd-september-2021/ (Item 4.1, page 143)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bundle Health Board 23 September 2021 (nhs.wales) (Item 4.9, page 449)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
https://cavuhb.nhs.wales/files/board-andcommittees/board-2021-22/2021-09-30-final-boardbook-v5-pdf/ (Item 7.8, page 231)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Microsoft Word - 7.5b Three Yearly WG Nurse Staffing Update UHB 30 September 2021 (nhs.wales) 7.5a

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-yearly-2018-2021-statutory-report/

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/october-2021-health-board/4-3-nsa-appendix-1-pdf/